

Datganiad am argymhelliad panel ymgynghorol Llywodraeth Cymru ynghylch cyllido'r Egin

Dywedodd y Cyngorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor: "Roedd darllen y penawdau newyddion am y cyllid ar gyfer y ganolfan diwydiannau creadigol yn Yr Egin yn hynod siomedig ac yn destun cryn ofid.

"Mae'r gymhariaeth rhwng y datblygiad yn Abertawe a'r Egin yn gwbl amhriodol. Mae'r Egin yn cynnwys adeiladu canolfan greadigol a digidol arloesol a datblygu clwstwr ar gyfer y sector creadigol nid yn unig i ranbarth Bae Abertawe, ond i Gymru gyfan. Er taw S4C fydd y prif denant yn Yr Egin, bydd yno hefyd dros 20 o fentrau masnachol o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, a fydd yn creu mwy na 150 o swyddi newydd, a chwmnïau deilliedig cysylltiedig a fydd yn darparu cyfleoedd pellach. Yn ogystal mae'n werth nodi pwysigrwydd dod ag S4C i orllewin Cymru, gan fod hynny'n ategu ymrwymiad y rhanbarth i gefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru a'r nod o gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050. "Bydd y budd i'r economi leol yn enfawr, a rhagwelir y bydd yr economi ranbarthol yn cael hwb gwerth £11 miliwn. Mae hyn yn cael ei ategu gan ymrwymiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i wella sgiliau a hyfforddiant sy'n ymwneud â'r diwydiant creadigol, yn ogystal â meithrin partneriaethau arloesol.

"Mae cam dau datblygiad Yr Egin yn un o'r prosiectau sy'n ffurfio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, yr ydym ar fin ei llofnodi, ac os bydd yn llwyddiannus hwn fydd y buddsoddiad mwyaf yn y rhanbarth ers cenhedlaeth, a fydd yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal ac yn creu bron 10,000 o swyddi. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynigion y Fargaen Ddinesig, ac felly mae'n siomedig dros ben fod y panel ymgynghorol wedi gwneud yr argymhelliad hwn ar adeg mor dyngedfennol."

Dywedodd y Cyngorydd Rob Stewart, Arweinydd arweiniol Dinas-ranbarth Bae Abertawe: "Yn ogystal â'r cyfalaf, mae'n bwysig bod rhanbarthau Cymru yn elwa ar y diwydiannau creadigol. Gall prosiect Yr Egin helpu i sicrhau bod y diwydiannau creadigol yn cael eu rhannu'n decach yng Nghymru. Bydd y mewnfuddsoddiad ychwanegol o'r sector preifat a ddaw yn sgil y prosiect hwn yn sylweddol."